# Gwasanaeth Hamdden

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Tachwedd 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnyddio fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Pan fyddwn wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

### Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall, os gwelwch yn dda:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni drwy post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith rydych chi'n ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cipolwg ar yr archwiliad | 4 |
| Ein canfyddiadau | 6 |
| Argymhellion | 10 |
| Atodiadau | 11 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 12 |

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

1 Ym mis Rhagfyr 2024, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) strategaeth Chwaraeon a Hamdden (y strategaeth).

2 Ystyriodd yr archwiliad hwn a oedd y Cyngor yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy (yr egwyddor) wrth ddatblygu'r strategaeth hon.

3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) (Cymru)[1] yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. I grynhoi, mae'r Ddeddf yn gyfraith yng Nghymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i wella'r amgylchedd, yr economi, y gymdeithas a'r diwylliant i bobl Cymru heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

4 Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus eu gwneud i ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Y rhain yw:

- deall sut y gall blaenoriaethau gefnogi ac effeithio ar flaenoriaethau cyrff cyhoeddus eraill;
- gweithio gydag eraill i gyflawni cynlluniau a gweithgareddau;
- osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol;
- deall anghenion, risgiau a chyfleoedd presennol ac yn y dyfodol; a
- cynnwys pobl a grwpiau sydd â diddordeb wrth sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth yn yr ardal y mae'r corff cyhoeddus yn ei gwasanaethu.

[1] Llesiant cenedlaethau'r dyfodol | LLYW. CYMRU

## Pam mae hyn yn bwysig

5 Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn bwysig oherwydd ei bod yn ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i gyrff cyhoeddus gydbwyso anghenion presennol â llesiant hirdymor cenedlaethau'r dyfodol.

6 Mae'n hyrwyddo gwneud penderfyniadau integredig ar draws agweddau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol o fywyd. Gall y dull hwn sicrhau nad yw polisïau, strategaethau a chamau gweithredu a gymerir heddiw yn peryglu ansawdd bywyd pobl yn y dyfodol.

7 Mae'r egwyddor yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl am y canlyniadau hirdymor wrth wneud penderfyniadau.

8 Mae'n annog atal ac ymyrraeth gynnar, gan helpu cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â materion posibl cyn iddynt waethygu a dod yn anoddach i'w datrys.

9 Hefyd, mae'r egwyddor hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio gyda sefydliadau eraill a chynnwys pobl amrywiol yn ei benderfyniadau.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

10 Fe wnaeth y Cyngor gymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy pan ddatblygodd ei Strategaeth Chwaraeon a Hamdden. Defnyddiodd ystod o ddata i'w hysbysu ac alinio'r strategaeth â'i flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r Cyngor hefyd wedi cymryd dull cydweithredol o ddatblygu a chyflawni'r strategaeth. Ond, er bod y Cyngor wedi ymgynghori â'i drigolion, nid oedd yn tynnu'n llawn ar farn ystod amrywiol o drigolion. Hefyd, er bod y Cyngor yn gosod ei drefniadau adrodd, nid oes ganddo ddigon o wybodaeth am berfformiad i asesu cynnydd yn effeithiol.

## Yr hyn a argymhellir gennym

11 Gwnaethom ddau argymhelliad i'r Cyngor ar:

- gryfhau ymgysylltu ac ymgynghori â phreswylwyr; a
- mesurau perfformiad.

# Ein canfyddiadau

## Cymhwysodd y Cyngor yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ei strategaeth Chwaraeon a Hamdden

12 Mae'r Strategaeth Chwaraeon a Hamdden (y strategaeth) yn cyd-fynd yn glir ag amcanion llesiant y Cyngor a'i ymrwymiad i Egwyddorion Marmot i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd ei drigolion.[2] Yn sail i'r weledigaeth hirdymor hon mae Cynllun Sirol Pum Mlynedd, Cynllun Llesiant Cymunedol a'r Strategaeth Chwaraeon a Hamdden. Trwy gysoni'r strategaeth â'i flaenoriaethau corfforaethol, mae'r Cyngor yn lleihau'r risg o ddyblygu ac yn helpu i nodi cyfleoedd i gyflawni sawl mantais.

13 Defnyddiodd y Cyngor wybodaeth berthnasol a data eang i helpu i lywio'r strategaeth. Ystyriodd ddata gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Sefydliad Tegwch Iechyd a'r Bwrdd Iechyd, megis disgwyliad oes iach, pwysau iach, anweithgarwch economaidd, ac ymddygiad cymdeithasol. Edrychodd y Cyngor hefyd ar ddata a ddarparwyd gan ei wasanaethau ei hun, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r gwasanaeth Iechyd, Chwaraeon a Ffitrwydd. Mae ei ddefnydd eang o ddata wedi rhoi dealltwriaeth dda i'r Cyngor o'r sefyllfa bresennol. Mae hefyd yn helpu'r Cyngor i ddeall cyfleoedd a risgiau cyfredol ac yn y dyfodol.

14 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen i'r strategaeth addasu i ymateb i ddata a gwybodaeth newydd. Mae rhywfaint o'r data a ddefnyddir i lunio'r strategaeth yn cael ei ddiweddaru bob dwy i dair blynedd. Mae hyn yn golygu y gall y Cyngor ystwytho ac addasu ei gyflawniad o'r strategaeth mewn ymateb i'r data ac olrhain newid dros y tymor canolig i hir.

---

[2] Cyngor Marmot | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

15 Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i ddeall effaith a chanlyniadau'r strategaeth a defnyddio hyn i lywio cyflawni yn y dyfodol. Er enghraifft, comisiynodd brifysgol i werthuso ei menter sy'n annog menywod i fod yn fwy egnïol yn gorfforol. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio'r canfyddiadau, a ddisgwylir ym mis Rhagfyr 2025, i ddeall effaith y fenter a llunio ei datblygiad yn y dyfodol.

16 Fe wnaeth y Cyngor gynnwys ei Dîm Arweinyddiaeth Estynedig, sy'n cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth, i ddatblygu'r strategaeth. Roedd sawl mantais i'r dull cydweithredol hwn. Helpodd y Cyngor i gael sicrwydd bod ystod o wasanaethau'r Cyngor wedi cyfrannu at ei ddatblygiad. Helpodd i hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin o'r cyfraniad y gall chwaraeon a hamdden ei gael wrth gefnogi blaenoriaethau'r Cyngor. Rhoddodd hefyd gyfle i wasanaethau unigol nodi sut y gallant helpu i gyflawni'r strategaeth.

17 Anogodd y Cyngor drigolion a rhanddeiliaid i gymryd rhan yn ei ymgynghoriad ar chwaraeon a hamdden. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar lefelau cyfranogiad presennol; rhwystrau i weithgarwch corfforol; gwirfoddoli; a chael mynediad at wybodaeth. Casglodd y Cyngor rywedd ac oedran ymatebwyr yr arolwg, ond ni chafodd unrhyw wybodaeth bellach a fyddai'n rhoi sicrwydd i'r Cyngor ei fod wedi derbyn barn gan ystod amrywiol o'i drigolion. Er enghraifft, anfonodd y Cyngor yr arolwg at Fforwm Mynediad Torfaen ond gan mai dim ond casglu oedran a rhywedd ymatebwyr yr arolwg wnaeth y Cyngor, nid yw'n gwybod a oedd yn dal barn unigolion neu grwpiau sy'n cynrychioli unigolion ag anableddau.[3] Mae hwn yn gyfle a gollwyd i ddeall y mewnwelediadau a'r profiadau sy'n amrywio yn ôl demograffeg.

18 Yn ogystal, nid oedd yr ymgynghoriad yn targedu pobl ifanc yn benodol. Trwy beidio â chynnwys amrywiaeth lawn ei drigolion, ni all y Cyngor gael sicrwydd ei fod wedi cynllunio'r strategaeth i ddiwallu anghenion ei drigolion. Roedd yr angen i gryfhau cyfleoedd ymgysylltu hefyd yn argymhelliad a gyhoeddwyd gennym yn ein hadroddiad Mai 2024 ar Strategaeth Ddigidol y Cyngor.[4] Gall ymgysylltiad y Cyngor â chymunedau lleol ar ei 'Gytundeb' gynnig cyfle i gasglu a deall barn ystod ehangach o drigolion.[5]

---

[3] Fforwm Mynediad Torfaen | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

[4] Archwilio Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol, Awst 2024

[5] Mae'r Cytundeb yn berthynas newydd rhwng y Cyngor a chymunedau lleol gyda'r nod o adeiladu rhywbeth gwell gyda'n gilydd.

19 Arweiniodd barn eraill at y Cyngor yn gwneud newidiadau i'r strategaeth. Er enghraifft, yn y Tîm Arweinyddiaeth Estynedig, darparodd Gofal Cymdeithasol Oedolion ddata ar iechyd dwysedd esgyrn mewn menywod hŷn a'r effaith ar fregusrwydd a chwympiadau, i'r unigolion a'r gwasanaeth iechyd. Diwygiodd y Cyngor y strategaeth i gynnwys pwysigrwydd iechyd esgyrn i fenywod sy'n gysylltiedig â gweithgareddau atal ac ymyrraeth gynnar. Mae hyn yn dangos sut mae'r Cyngor wedi ystyried data a'r ymatebion o'i ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu i lywio'r strategaeth.

20 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio ar y cyd i gyflawni'r strategaeth. Ar adeg yr archwiliad hwn, roedd y Cyngor yn gweithio gyda Chysylltwyr Cymunedol, Cynghrair Gwirfoddol Torfaen, Clybiau Chwaraeon, Cynghorau Cymuned a Halo Leisure i wella iechyd a llesiant ei drigolion. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod gan wahanol wasanaethau'r Cyngor, fel Parciau, Gwasanaethau Cymdeithasol a Theithio Llesol, rolau wrth gyflawni'r strategaeth. Gall cydweithio arwain at rannu gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau a all arwain at ganlyniadau gwell.

21 Nid yw'r Cyngor yn neilltuo adnoddau penodol ar gyfer y strategaeth. Yn hytrach, mae nifer o wasanaethau'r Cyngor yn rhannu cyfrifoldeb am ei gyflawni, gan ddefnyddio arian o'u cyllidebau gwasanaeth unigol. Er y gallai'r dull hwn wneud cyflawni'r strategaeth yn fwy agored i bwysau cyllidebol mewn mannau eraill yn y gwasanaethau, mae hefyd yn dod â manteision. Er enghraifft, gall helpu i ymgorffori'r strategaeth mewn darparu gwasanaethau bob dydd ac annog swyddogion i weithio ar y cyd i wneud y mwyaf o adnoddau. Wrth i fanteision ariannol y model ffederal gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gael eu gwireddu, mae gan y Cyngor gyfle hefyd i ailgyfeirio adnoddau a ryddhawyd tuag at ei flaenoriaethau, gan gynnwys y strategaeth o bosibl.

22 Mae'r Cyngor wedi sicrhau £5 miliwn o gyllid dros bum mlynedd i weithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd a phrifysgol leol ar gyfer ymchwil i iechyd a llesiant trigolion Torfaen. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio'r ymchwil hon i ddarparu tystiolaeth i ddatblygu rhaglenni a gweithgareddau wedi'u targedu yn y dyfodol i wella iechyd a lles trigolion.

23 Mae arweinyddiaeth y Cyngor yn rhoi pwyslais cryf ar reoli perfformiad, ac mae ei Dîm Gweithredol yn gwneud defnydd da o Power BI i fonitro a herio perfformiad. Mae'r Cyngor yn creu dangosfwrdd Power BI i'w helpu i fonitro ei waith ymyrraeth gynnar ac atal, gan gynnwys cyfraniad chwaraeon a hamdden.

24 Yn ddiweddar, dechreuodd y Tîm Arweinyddiaeth Estynedig fonitro cynnydd blynyddol yn erbyn strategaethau allweddol y Cyngor. Bydd y Strategaeth Chwaraeon a Hamdden yn cael ei hystyried fel rhan o'r Cynllun Llesiant Cymunedol, yn hytrach nag fel strategaeth annibynnol ym mis Medi 2026. Bydd yr Aelod Cabinet perthnasol yn derbyn adroddiad cynnydd blynyddol, a gall y pwyllgor craffu priodol benderfynu a yw am dderbyn diweddariad.

25 Mae monitro cynnydd y strategaeth yn bwysig i'r Cyngor ddeall a yw'n cyflawni'r manteision arfaethedig ar y cyflymder angenrheidiol. Ond ar adeg ein hadolygiad, roedd y Cyngor yn dal i ddatblygu'r wybodaeth y bydd ei hangen arno i asesu cynnydd yn erbyn y strategaeth yn effeithiol. Er enghraifft, er bod y strategaeth yn cynnwys dangosyddion perfformiad, ar yr adeg y cymeradwyodd y Cyngor nid oedd unrhyw ddata sylfaenol na thargedau. Mae rhai o'r dangosyddion perfformiad yn newydd ac mae'r Cyngor yn casglu data sylfaenol yn 2025-26. Fodd bynnag, bydd y diffyg data a thargedau sylfaenol hwn yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor benderfynu a yw'n cyflawni'r strategaeth fel y disgwylir.

26 Nid oes gan y Cyngor gynllun cyflawni sy'n cefnogi'r strategaeth. Yn lle hynny, dywedwyd wrthym fod y Cyngor yn ymgorffori camau gweithredu a mesurau perthnasol mewn cynlluniau gwasanaeth unigol, y mae'n eu monitro yn unol â threfniadau corfforaethol. Fodd bynnag, nid ydym wedi derbyn unrhyw gynlluniau gwasanaeth ar gyfer 2025-26 sy'n dangos sut mae gwahanol feysydd gwasanaeth yn cyflawni camau gweithredu yn y strategaeth.

# Argymhellion

**A1 Cryfhau ymgysylltu ac ymgynghori**

**1.1** Wrth gynllunio ei ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu, dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau i ddal a deall demograffeg y rhai sy'n cymryd rhan. Gall hyn helpu'r Cyngor i asesu a yw safbwyntiau yn cynrychioli amrywiaeth lawn ei ddinasyddion (paragraff 17).

**1.2** Dylai'r Cyngor gryfhau ei ymgysylltiad ag amrywiaeth lawn y rhai sydd â diddordeb mewn cyflawni'r strategaeth Chwaraeon a Hamdden. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y strategaeth yn diwallu anghenion cymaint o drigolion â phosibl (paragraff 18).

**A2 Mesurau perfformiad**

**2.1** Unwaith y bydd y Cyngor yn sefydlu data sylfaenol, mae angen iddo osod targedau a cherrig milltir i gefnogi asesiad parhaus o gynnydd yn erbyn y strategaeth (paragraff 25).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Edrychodd yr archwiliad hwn ar a oedd y Cyngor yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ei strategaeth Chwaraeon a Hamdden.

Gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn ym mis Medi 2025.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Ceisiodd yr archwiliad hwn ateb y cwestiynau canlynol:

- A wnaeth y Cyngor gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r strategaeth?
- A oes gan y Cyngor yr adnoddau i gyflawni ei strategaeth Chwaraeon a Hamdden?
- A oes trefniadau i fonitro'r cynnydd o ran cyflawni'r strategaeth Chwaraeon a Hamdden?

### Meini prawf

Fe wnaethom asesu a yw'r Cyngor:

- gyda dealltwriaeth dda o'r anghenion, y risgiau a'r cyfleoedd presennol ac yn y dyfodol i helpu i ddatblygu ei strategaeth Chwaraeon a Hamdden;
- yn deall achosion sylfaenol problemau;
- wedi ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiaeth y boblogaeth wrth ddatblygu ei strategaeth Chwaraeon a Hamdden;
- wedi tynnu ar ganlyniadau gweithgarwch ymgysylltu i helpu i ddatblygu ei strategaeth Chwaraeon a Hamdden;

- wedi ystyried sut y gall y strategaeth Chwaraeon a Hamdden wella llesiant a chael effaith eang dros y tymor byr, canolig a hirdymor;
- yn gallu darparu'r adnoddau i gyflawni'r strategaeth;
- gyda mesurau, cerrig milltir, targedau a chanlyniadau i alluogi'r Cyngor i fonitro cynnydd; a
- gyda trefniadau ar gyfer adrodd.

## Dulliau

Fe wnaethom edrych ar ddogfennau a chyfweld â swyddogion y Cyngor a phartner y Cyngor.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y defnydd o adnoddau gan y sefydliadau hyn ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'r rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.